SFP – 54

# Is-bwyllgorau ar Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2012

BBC CYMRU WALES: gwybodaeth ychwanegol

> Cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach ar y costau **cysylltiedig â'r rheoliadau, gan gynnwys:** cost adleoli cynyrchiadau'r BBC i Loegr i recordio golygfeydd dramatig lle'r oedd actorion yn ysmygu; y gost yn codi o benderfyniad **cynyrchiadau i beidio â lleoli yng Nghymru o ganlyniad i'r** diffyg eithriad yn y ddeddfwriaeth; unrhyw fanylion pellach ar gost efelychu ysmygu gan ddefnyddio technoleg CGI.

Mewn ymateb i gais yr Is-bwyllgor am fwy o fanylion ar agweddau cost, rydym wedi nodi isod yr hyn y gobeithiwn sy'n enghreifftiau defnyddiol, gan gynnwys costau gwirioneddol a chostau a amcangyfrifwyd.

1. **Cost adleoli cynyrchiadau'r BBC i** Loegr i recordio golygfeydd dramatig lle'r oedd actorion yn ysmygu

O ganlyniad i'r cwestiynau ychwanegol a dderbyniwyd a'n sesiwn tystiolaeth yn y Cynulliad, rydym wedi archwilio enghreifftiau pellach o ffilmio ar draws y ffin.

Mae ein hadolygiad wedi tynnu sylw at natur gymhleth penderfyniadau ynghylch lleoliadau ffilmio ac wedi nodi'r ffaith bod penderfyniadau yn aml yn newid rhwng y cyfnod cynllunio a'r ffilmio ei hun, weithio'n hwyr iawn yn y broses.

Fel cynhyrchiad cyfnod, *Upstairs Downstairs* (cyfres 2) yw'r ddrama gan BBC Cymru Wales sydd fwyaf perthnasol i'w hystyried. Adolygwyd toriad terfynol y gyfres fesul golygfa gan nodi'r golygfeydd hynny lle'r oedd ysmygu i'w weld yn glir. Mae adolygiad llawn o waith papur y cynhyrchiad hefyd wedi canfod y ffaith bod rhai enghreifftiau ychwanegol o orfod ffilmio golygfeydd ar draws y ffin, a dylanwadwyd ar y penderfyniadau hynny gan y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hefyd wedi canfod enghreifftiau lle yr oedd golygfeydd a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer Bryste wedi cael eu newid i Gaerdydd oherwydd natur hyblyg y broses o wneud penderfyniadau ar leoliadau, costiadau a ffactorau eraill.

O'r herwydd, gallwn yn awr ddarparu manylion diwygiedig i chi o olygfeydd *Upstairs Downstairs* (cyfres 2) a drosglwyddwyd ar draws y ffin oherwydd argaeledd lleoliadau addas a hefyd oherwydd y gwaharddiad ar ysmygu yng Nghymru, sef ffilmio bar yn yr Almaen gydag yfwyr a sinema gyda chynulleidfa. Ffilmiwyd y ddwy olygfa ym Mryste. Ffilmiwyd y tu allan i'r ring baffio yn Lloegr. Gan gyfeirio at ein tystiolaeth flaenorol, llwyddwyd i adleoli'r olygfa o baffio dan do i

Gyfnewidfa Lo Caerdydd er gwaethaf cynlluniau cychwynnol i ffilmio ym Mryste. Hoffem dynnu sylw hefyd at y ffaith y ffilmiwyd yr olygfa o Neuadd Albert ym Mryste yn rhannol oherwydd y gwaharddiad ar ysmygu yng Nghymru, ond nid yn gyfan gwbl gan fod materion yn ymwneud â lleoliad yn ffactor o bwys sy'n cadarnhau'r cyfeiriad

uchod at natur hyblyg a chymhleth y broses o wneud penderfyniadau ynghylch lleoliadau.

Dengys cofnodion cynhyrchu *Upstairs Downstairs*, yn ogystal â ffilmio yn y stiwdio ym Mhorth y Rhath, y ffilmiwyd 11 diwrnod ar leoliad ym Mryste a 35 diwrnod ar leoliad yng Nghymru a Leamington Spa. Cafodd y golygfeydd hyn lle yr oedd ysmygu yn benodol ofynnol fel y cyfeirir uchod, eu ffilmio dros bum diwrnod, gyda'r costau ffilmio ychwanegol oddeutu £18k, ynghyd â £13k ychwanegol ar gyfer amser ffilmio a gollwyd oherwydd teithio. Rydym yn amcangyfrif y gwariwyd £14.5k ar y criw Saesnig lleol yn hytrach na'r criw Cymreig a allai fod wedi cael eu cyflogi pe byddem wedi ffilmio'r golygfeydd hynny yng Nghymru.

Er gwaethaf y costau o symud y cynhyrchiad i Loegr, amcangyfrifwn ein bod wedi arbed £10k o'i gymharu â chost effeithiau arbennig a fyddai wedi eu talu am effeithiau ysmygu ar y dyddiau hyn.

2. **Y gost yn codi o gynyrchiadau'n penderfynu peidio â lleoli yng** Nghymru o ganlyniad i ddiffyg eithriad yn y ddeddfwriaeth

Fel y dywedwyd yn flaenorol, dim ond un ystyriaeth yw ysmygu wrth benderfynu ble i leoli cynhyrchiad, mae'n benderfyniad cymhleth iawn sy'n ystyried ystod o ffactorau.

Caiff dramâu cyfnod trawiadol a wnaed ar gyfer BBC Four yn aml eu cynhyrchu ar gyllideb cynhyrchiad drama gweddol dynn sef oddeutu £500-600k yr awr.

Fel enghraifft, cafodd drama BBC Four *Room at the Top* ei ffilmio yn Lloegr a'i gosod mewn cyfnod pan oedd ysmygu'n gyffredin. Er nad ystyriwyd Cymru ar unrhyw adeg fel canolfan ar gyfer y cynhyrchiad hwn, mae'n hawdd gweld sut y gallai cynhyrchiad tebyg gael ei ddylanwadu gan y gwaharddiad ar ysmygu. Byddai cynhyrchydd a fyddai'n yn ystyried Cymru fel canolfan ar gyfer cynhyrchiad tebyg yn ymwybodol fod pob ceiniog yn cyfrif ar gyllideb gyfyngedig a gallai hyn droi'r fantol yn erbyn Cymru.

Ein dealltwriaeth o'r fantais dreth arfaethedig yn y DU y cyfeiriwyd ati mewn tystiolaeth, yw mai ei nod yw denu a chadw cynyrchiadau yn y DU ac fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd byddai'n berthnasol i ddramâu gwerth £1m yr awr ac uwch. Bydd y lefel hon o gyllideb yn aml yn berthnasol i gynyrchiadau cyfnod ar raddfa fawr sy'n profi'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd.

Gallai cyfres chwe awr gostio oddeutu £6m – gwerth economaidd uniongyrchol yr hoffem ei weld yn dod i Gymru – ond gallwn ragweld y gallai deddfwriaeth bresennol gael ei hystyried yn drafferthus ar gyfer drama gyfnod. Yn ôl adroddiad annibynnol a gomisiynwyd yn ddiweddar gan y BBC, a oedd yn asesu effaith economaidd cynyrchiadau, mae pob £1 o ffi'r drwydded a werir yn werth £2 i'r economi leol. Mae manylion pellach i'w cael yma: [http://www.bbc.co.uk/blogs/aboutthebbc/posts/The-BBCs-economic-impact](http://www.bbc.co.uk/blogs/aboutthebbc/posts/The-BBCs-economic-impact)

3. Mwy o fanylion am gost efelychu ysmygu gan ddefnyddio technoleg CGI

Mae'n werth ailadrodd y byddem bob amser yn edrych ar ddewisiadau gwahanol i ysmygu go iawn cyn penderfynu defnyddio sigaréts wedi'u tanio mewn cynhyrchiad drama. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwerthfawrogi y gall cost y dewisiadau amgen hynny hefyd fod yn ormodol.

Un dewis gwahanol a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yw delweddau a gynhyrchir gan gyfrifiadur (CGI). Bydd costau'n amrywio'n anochel, gan ddibynnu ar raddfa'r gwaith, dylai amcangyfrifon a gasglwyd gan gwmni effeithiau gweledol mawr roi syniad o sut y mae hyn yn gweithio.

Mewn tystiolaeth, cyfeiriwyd at olygfa yn *Doctor Who* lle y gwelwyd Winston Churchill yn ysmygu sigâr effeithiau arbennig. Gellir defnyddio CGI i wella golygfeydd ond yn anffodus nid oes gennym gofnodion manwl ar gyfer yr olygfa hon. Fodd bynnag, caiff y cyflenwr effeithiau gweledol y buom ni'n siarad ag ef ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer drama BBC Cymru Wales, gan weithio o fewn manylebau ansawdd uchel ein gwerthoedd cynhyrchu. Amcangyfrifwyd bod cost 30 x siot 6 eiliad gyda dau aelod o'r cast yn ysmygu mewn llun agos, hyd at £55k.

I gynnig dealltwriaeth bellach o'r gost hon, pennir y swm hwn o waith animeiddio ac effeithiau gan gymhlethdod pob siot a faint o symud sydd ym mhob ffrâm – lefel o gost ychwanegol y byddai'n anodd ei chyfiawnhau i gyllidebau'r rhan fwyaf o ddramâu. Fel cynhyrchwyr dramâu, byddai'n rhaid i ni hefyd ymestyn amserlenni ôl-gynhyrchu i gynnwys gwaith GSI o unrhyw fath ac fe fyddai yna gost yn codi am hyn.

Y dewis arall y cyfeirir ato'n aml yw defnyddio sigaréts ffug fel propiau. Fel y disgrifiwyd mewn tystiolaeth lafar, yn aml nid ydynt yn darbwyllo – yn enwedig mewn golygfa agos. I geisio gwneud iddynt ymddangos yn fwy realistig, mae angen i arbenigwr ddatgymalu, ail-lunio a rhoi'r sigarét ffug yn ôl at ei gilydd, sy'n broses ddelicet yn cymryd llawer o

amser. Gallai sigaréts neu sigarau ffug gostio oddeutu £1500 - £2500 y diwrnod, gan ddibynnu ar y nifer o gynigion ffilmio a nifer y cast sy’n ysmygu.

Ar gyfer cyfres 2 *Upstairs Downstairs*, rydym wedi amcangyfrif y gwariwyd oddeutu £24,000 ar greu effaith weledol ysmygu.

Ceir cost gudd ychwanegol bwysig hefyd gyda sigaréts ffug fel propiau, sef yr amser a gollir wrth ail-osod y sigaréts ffug.

Ni chadwyd cofnod gennym o’r amser a gollwyd ar gyfer cyfres 2 *Upstairs Downstairs*. Ond, gan weithio ar y dybiaeth y byddai’r elfennau eraill o